

(parhad o'r dudalen flaen)

Beth bynnag ddaw i'n rhan, cofiwn anogaeth Paul yn Rhufeiniaid 5:5-6
beibl.net:

⁵ Dŷn ni'n gwybod y byddwn ni ddim yn cael ein siomi yn y gobaith yna, am fod Duw eisoes wedi tywallt ei gariad yn ein calonnau drwy roi'r Ysbryd Glân i ni!⁶ Pan oedd pethau'n gwbl anobeithiol arnon ni, dyma'r Meseia yn dod ar yr adeg iawn i farw droson ni rai drwg!

Rhodri

Cofion a Llongyfarchion

Parhawn i gofio am y clefion yn ein plith. Mae Iorwen Roberts (Llansannan) yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, fel ag y mae Dilys Jones (Nantglyn) yn yr Inffirmari. Hyderwn y bydd y ddwy ohonoch yn profi daioni'r Arglwydd yn eich cynnal, ac yn eich hiacháu. Anfonwn ein cofion hefyd at eraill o'r ofalaeth sy'n parhau i wella wedi gwahanol driniaethau, a'r rhai hynny ohonoch sydd heb fod yn dda eich hiechyd ar hyn o bryd. Fe'ch cyflwynwn oll i ofal Duw gan ofyn Iddo gysgodi drosoch a thros eich anwyliaid yn yr un modd.

Parhawn i gofio hefyd y rhai sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ddiweddar, ac fe'ch cyflwynwn chwithau yn dyner i ofal yr Arglwydd. Gweddiwn eich bod yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Amy Evans (Llanfair) sydd newydd ddathlu penblwydd arbennig! Llongyfarchiadau hefyd i eraill o'n plith sydd wedi cyrraedd carreg filltir arbennig ond sydd ddim am gael eu henwi! Bydded bendith Duw yn helaeth arnoch.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

(Bryn Goleu, Llansannan, DINBYCH LL16 5LF)

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (26^{ain}), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 16 Ionawr 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Mae gan bawb ohonom ein harferion Nadoligaidd gwahanol, ac un o'm rhai i yw gwneud fudge, neu 'cyffug' i roi'r enw Cymraeg cywir yn ôl y Geiriadur. (Ymddiheuriadau i'r rhai ohonoch sydd â dim i'w ddweud wrth y math arbennig yma o ddanteithion!) Un o atgofion byw fy mhentyndod yw syllu ar mam wrth y stof yn cymysgu a minnau ar bigau'r drain yn methu disgwyl i gael blasu'r cynnyrch gorffenedig. Ac wedi tyfu'n oedolyn, daeth y cyfle i ddilyn yn ôl troed mam wrth fynd i'r gegin a choginio gyda fy mhlant innau. Ond eleni cafwyd siom! Er fy mod wedi pwyso'r cynhwysion yn ofalus a defnyddio thermomedr, nid fudge a gafwyd ond rhywbeth tebycach i sôs caramel!

Beth aeth o'i le tybed? Holais gogyddion llawer mwy profiadol na mi, a chwilio am atebion ar y we, lle daeth yn amlwg fod nifer o wersi oedd angen i mi eu dysgu. Ond ar y pryd doedd hynny'n fawr o gysur wrth i mi syllu'n siomedig ar y glud melyn o'm blaen!

Tra byddwn yn byw mewn byd syrthiedig, daw siomedigaethau a cholledion difrifol i ran pawb ohonom rywryd. Gall y rhain fod yn brofedigaethau, yn siom mewn pobl (gan gynnwys ni'n hunain), neu'n ddigalondid oherwydd sefyllfaoedd annymunol. Bydd hyn yn effeithio pobl o bob math o gredoau a chefnidiroedd, ac mae'n bwysig cofio nad yw dilyn Crist yn gwarantu bywyd cyfforddus i neb. Ond diolch byth, nid yw Gair Duw yn ein gadael heb gysur. Oherwydd wrth ddarllen gwahanol hanesion yr Hen Destament down ar draws nifer o bobl yr Arglwydd a gafodd eu cynnal a'u nerthu trwy ddryswch a thor-calon eithafol megis Joseff, Daniel a Job. Ac mae'r Testament Newydd hefyd yn annog Cristnogion i wynebu profiadau anodd bywyd trwy ffydd, er cymaint o frwydr yw hynny yng nghanol ein gwewyr. Gallwn wneud hyn nid oherwydd unrhyw gryfder cynhenid ynom ni, ond wrth bwyso yn ein gwendid ar ein Gwardwr Iesu Grist a goncrodd bechod a marwolaeth ar ein rhan. Rhoddodd Iesu ei fywyd dros rai annheilwng, ac yna rhoddodd Ei Ysbryd i'n galluogi i orlifo â gobaith. (Rhufeiniaid 15:13)

(parhad ar y dudalen gefn)



Cyhoeddiadau'r Fro

Gair i'ch atgoffa bod rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ymhob capel i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd unai yn dioddef hefo'r feirws neu ag unrhyw un o'r symptomau, neu sydd i fod i ynysu ar adeg yr addoliad, a gofynnir yn garedig i'r holl fynychwyr ddod â mygydau a'u gwisgo y tu mewn i'r adeilad, os gwelwch yn dda.

Dydd Sul, Ionawr 16eg

- **Oedfa ar YouTube** o dan arweiniad y Parch. Aneurin Owen am 10:30. Ewch i wefan www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Oedfa i'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno. (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben, neu cysylltwch â Mair i gael DVD, CD neu gopi papur o'r gwasanaeth. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.)
- **Sgwrs a Gweddi ar ZOOM** am 6:00 yr hwyr o dan arweiniad Rhodri. Ewch i wefan www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Sgwrs a Gweddi' ar y dudalen flaen i ymuno. Croeso cynnes i bawb.

Nos Fercher, Ionawr 19eg

- **Oedfa Dechrau'r Flwyddyn Cefn Meiriadog ar ZOOM** am 7:00 yr hwyr o dan arweiniad y Parch. John Treharne, Llwynhendy, Llanelli. Ewch i wefan www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Oedfa Dechrau'r Flwyddyn Cefn Meiriadog' ar y dudalen flaen i ymuno. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Ionawr 23ain

- **Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 9:30.** Enwau i Mair B. Williams erbyn hanner dydd ar y Sadwrn blaenorol, os gwelwch yn dda.
- **Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain am 10:00.**
- **Oedfa ar YouTube** o dan arweiniad Rhodri am 10:30. Ewch i wefan www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Oedfa i'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno. (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben, neu cysylltwch â Mair i gael DVD, CD neu gopi papur o'r gwasanaeth. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.)

- **'Gwreiddiau'** – Mae gwahoddiad i ni ymuno gyda Bro Dinbych ar gyfer amser o addoliad yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Addas i bob oed, gyda darpariaeth dwyieithog. Bydd angen cofrestru o flaen llaw (<https://forms.gle/dCMTDfTgY5KsW9Cj6>).

Dydd Sul, Ionawr 30ain

- **Oedfa yng Nghefn Berain am 9:30** o dan arweiniad y Parch. Brian Wright. Croeso cynnes i bawb. Cysylltwch ymlaen llaw â Meryl neu Eirian er mwyn sicrhau lle (post@bryname.co.uk / eirianj123@gmail.com).
- **Oedfa ar YouTube** o dan arweiniad Rhodri am 10:30. Ewch i wefan www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Oedfa i'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno. (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben, neu cysylltwch â Mair i gael DVD, CD neu gopi papur o'r gwasanaeth. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.)
- **Sgwrs a Gweddi** am 6:00 yr hwyr. Cysylltwch â Mair yn nes i'r amser i gael gwybod a fydd y cyfarfod mewn adeilad neu ar ZOOM.

Nos Lun, Ionawr 31ain a Pnawn Gwener, Chwefror 4ydd

- **'Gweddi'r Arglwydd'** – Y sesiwn cyntaf mewn cyfres o bump astudiaeth Feiblaidd o dan arweiniad gweithwyr Dorcas (ar ZOOM). Gellir ymuno naill ai ar nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar brynhawn Gwener am 1:30. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071) Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl ac fe fyddai'n braf iawn cael cwmni ffrindiau newydd.

Gofal Dydd Waengoleugoed – hysbysiad olaf

Diolch i bawb sydd eisoes wedi cyfrannu tuag at ein casgliad arbennig tuag at waith Canolfan Gofal Dydd Waengoleugoed lle mae amryw o aelodau'r Ofalaeth a'r gymuned yn ehangach yn derbyn gofal a chefnogaeth amhrisiadwy. Os hoffech gyfrannu, gallwch wneud hynny ar-lein (anfonwch neges i Mair i gael y manylion banc) neu trwy anfon siec i Mair, **cyn diwedd Ionawr, os gwelwch yn dda**, yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' gyda 'Gofal Dydd Waengoleugoed' wedi ei ysgrifennu ar y cefn. Diolchwn am y gwasanaeth arbennig hwn ac am eich cefnogaeth chithau.